**GWELEDIGAETH EIN HYSGOL**

Mae Ysgol Gymraeg Trefynwy yn gyffrous i ffynnu fel cymuned ofalgar, gyd-ddibynnol sy’n falch o fod yn Gymraeg.

**CENHADAETH**

Rydym yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg cyfannol sy’n canolbwyntio ar y plentyn.

Cwricwlwm ysgol yw popeth y mae dysgwr yn ei brofi er mwyn cyflawni’r pedwar diben. Wrth ddylunio cwricwlwm Ysgol Gymraeg Trefynwy mae anghenion ein dysgwyr yn flaenllaw yn ein meddyliau. Rydym yn rhoi ystyriaeth fanwl i **beth** rydyn ni’n ei addysgu, **sut** yr ydym yn addysgu ac hefyd, **pam** yr ydym yn ei addysgu.

## Sut byddwn yn dysgu

**Bydd ein dysgu ac addysgu**


- yn ysbrydoli, ymgysylltu ac ysgogi plant i ddysgu a meithrin eu chwilfrydedd a brwdfrydedd i fod yn ddysgwyr annibynnol.
- yn defnyddio asesu i lywio'r addysgu er mwyn darparu cymorth, cyfleoedd adeiladol ac ymestyn y dysgu ar gyfer pob plentyn, ar bob lefel o gyrhaeddiad.
- mewn amgylchedd pwrpasol ble mae’r plant yn teimlo'n ddiogel a'n hyderus i ddysgu tu fewn a thu allan.
- yn rhoi'r plentyn yn ganolog i ddysgu ei hunan trwy gynllunio effeithiol er mwyn sicrhau cynnydd parhaol.
- yn cydnabod a gwerthfawrogi pwysigrwydd cyfraniad teulu yn nysgu plant.

# YSGOL GYMRAEG TREFYNWY

## Crynodeb ein Cwricwlwm

## Y Pedwar Diben

Byddwn yn cefnogi ein plant i fod yn:




| Ein Gwerthoedd Allweddol | | |
|---|---|---|
| ***Perthyn*** Rydym yn perthyn i’r gymuned yma yn Nhrefynwy ac i gymuned ddiwylliannol ehangach Cymru. | ***Gofalu*** Rydyn ni’n gofalu am ein hunain, ein gilydd, a'n hamgylchedd. | ***Ffynnu*** Rydym yn ffynnu am ein bod yn barod i lwyddo. |

## Beth byddwn yn dysgu

| Meysydd Dysgu a Phrofiadau Cwricwlwm i Gymru |
|---|
| Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu |
| Iechyd a Lles |
| Datblygiad Mathemategol |
| Celfyddydau Mynegiannol |
| Dyniaethau |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg |

## Trefniadau Asesu

Wrth gychwyn yn yr ysgol byddwn yn arsylwi a chasglu gwybodaeth asesiadol sylfaenol er mwyn i athrawon allu cynllunio gwaith i ddiwallu anghenion unigol. Bydd y plant yn barod i ddefnyddio meini prawf llwyddiant i arfarnu dysgu eu hunain ac eraill yn reolaidd er mwyn symud y dysgu ymlaen a sicrhau cynnydd. Gosodir targedau cyson ynghyd a'r plant i’w cefnogi i wneud cynnydd cyson ac adnabod eu dysgu. Dethlir llwyddiant gan ddefnyddio system clôd croesi’r bont. Byddwn yn cynnal asesiadau Personol Llywodraeth Cymru yn flynyddol ar gyfer disgyblion Bl2 i Bl 6 mewn Darllen Cymraeg a Saesneg, Mathemateg Gweithdrefnol a Rhesymu.

**Sgiliau Trawsgwricwlaidd**

- Llythrennedd
- Fframwaith Cymhwysedd Digidol
- Rhifedd

**Themau trawsbynciol**

- Hawliau Dynol ac Amrywiaeth
- Addysg Cydberthnasau a Rhywioldeb
- Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith
- Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol